

t2

group

Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru 2020-2021



Datganiad polisi

Rydym yn cydnabod y bydd dysgwyr a busnesau o bosibl am ddysgu/cynnal eu busnes drwy gyfrwng y Gymraeg.

Bwriad grŵp t2 yw darparu dull realistig a synhwyrol i'n dysgwyr/busnesau trwy gynnig rhaglen ddysgu o'r ansawdd uchaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn ceisio cryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg yn gyson fel rhan o'n gwasanaethau a thrin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol i wneud hynny.

Bydd y polisi'n adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes a bydd yn cyflwyno cynlluniau i annog a hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth staff o'r polisi hwn i sicrhau ei fod yn llwyddiannus a byddwn yn datblygu partneriaethau ac yn gweithio gydag ymgynghrowyr lle bo'n bosibl.

Cyd-destun

Mae 'Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru'n amlinellu'r uchelgais i weld nifer y bobl sy'n gallu mwynhau siarad a defnyddio'r Gymraeg yn cyrraedd miliwn erbyn 2050. Er bod hon yn uchelgais heriol mae'n her werth chweil ac yn angenrheidiol os ydym am sicrhau hyfywedd yr iaith ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Nodwyd tair thema ar gyfer gwireddu'r weledigaeth hon:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg
- Creu amodau ffafriol – seilwaith a chyd-destun

Yn grŵp t2 ein nod yw cefnogi'r uchelgais hon drwy ein Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru, sydd wedi'i datblygu i gefnogi'r camau gweithredu allweddol canlynol:

- Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg
- Cynyddu ac ehangu cyfleoedd iddynt ddefnyddio eu sgiliau
- Creu amgylchedd lle bydd pawb am ddefnyddio'r Gymraeg

Ein nod yw cefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni'r targedau canlynol:

- The number of Welsh speakers to reach 1 million by 2050
- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050
- Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050

Strategaeth

Pwrpas Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru yw:

Creu ethos Cymreig

- Sicrhau bod ein hethos a'n blaenoriaethau ar gyfer hyfforddiant Cymraeg yn cael eu deall a'n bod yn ymrwymo iddynt ar bob lefel o fewn t2
- Sicrhau ein bod yn cyflawni ein cynlluniau laith Gymraeg
- Sicrhau bod arddangosfeydd Cymraeg priodol ar gael

Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn effeithiol i ddysgwyr

- Sicrhau bod tiwtoriaid Cymraeg eu hiaith yn cael eu neilltuo ar gyfer dysgwyr Cymraeg eu hiaith, lle bo modd, i drafod manteision a gwerth hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithiol gyda dysgwyr cyfrwng Cymraeg amharod
- Sicrhau bod dysgwyr sydd wedi astudio Cymraeg fel ail iaith yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach
- Sicrhau bod staff sydd â phrofiad o weithio ym maes galwedigaethol y dysgwyr yn gallu hyrwyddo manteision gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod hefyd yn gallu darparu gwybodaeth gyfredol am gyfleoedd ar gyfer dysgu pellach a dilyniant gyrfa

Yn hyn o beth byddwn yn:

- Ymgorffori'r Gymraeg a Diwylliant Cymru yn Rhaglenni Prentisiaethau pawb lle bo hynny'n briodol
- Sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cymell i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach o fewn eu maes galwedigaethol
- Recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg sy'n fodolau rôl Cymraeg da yn eu meysydd galwedigaethol i annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Ceisio sicrhau bod gennym raglenni dysgu sy'n cydfynd ag anghenion dysgwyr a chyflogwyr

Cynnydd hyd yma

- Rydym wedi diweddarau ein Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn unol â 'Cymraeg 2050 - Miliwn o Siaradwyr Cymraeg' Llywodraeth Cymru a 'Chynllun Gweithredu'r Gymraeg mewn Addysg 2017-21' Llywodraeth Cymru
- Rydym wedi cyfieithu ein gwefan a'n deunyddiau marchnata i'r Gymraeg
- Rydym wedi sicrhau bod arddangosfeydd Cymraeg priodol ar gael
- Mae gennym Staff Gwerthiant a Staff Cyngor ac Arweiniad Cychwynnol sy'n siarad Cymraeg

- Mae gennym 3 o reolwyr cyfrifon sy'n siarad Cymraeg sy'n gyfrifol am ein cyflogwyr Cymraeg
- Sicrhawyd bod gennym systemau ar waith ar gyfer nodi anghenion Cymraeg dysgwyr yn gynnar
- Sicrhawyd bod dysgwyr yn ymwybodol o'r Ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog sydd ar gael
- Rydym wedi parhau i ddarparu gwybodaeth ar ein gwefan ac wrth gynnig cyngor ac arweiniad cychwynnol ar fanteision defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn enwedig diwydiannau a llwybrau gyrfa cysylltiedig
- Sicrhawyd bod staff sy'n siarad Cymraeg ar gael i gyfnewid dysgwyr
- Recriwtiwyd Rheolwyr Datblygiad Personol a Staff Sicrwydd Ansawdd Mewnol sy'n siarad Cymraeg i gyflwyno ein rhaglenni
- Darparwyd Sgiliau Hanfodol Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg
- Rydym yn parhau i ddarparu Prentisiaethau yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn ddwyieithog
- Datblygwyd cwrs 'Mentora yn y Gweithle' sydd wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg i annog mwy o fentoriaid sy'n siarad Cymraeg.
- Datblygir deunyddiau adnoddau dysgu Cymraeg yn barhaus
- Cynyddwyd ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a Diwylliant Cymru i ddysgwyr drwy ein cylchlythyrau dysgwyr
- Datblygwyd gwefan 'Pam Dysgu Cymraeg' gan gynnwys adnodd Prentis-laith
- Hyrwyddwyd ein Canllawiau Cyflym i annog dysgwyr i roi cynnig ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau personol
- Datblygwyd adran y Gymraeg a Diwylliant Cymru ar fewnwyd y staff
- Cynyddwyd ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y Gymraeg a Diwylliant Cymru i staff yn ein cylchlythyrau staff
- Codwyd proffil y Gymraeg a Diwylliant Cymru gyda staff mewn cyfarfodydd alinio chwarterol a pherfformiad misol
- Datblygwyd tudalen swyddi newydd ar ein gwefan yn Gymraeg i ddenu mwy o staff sy'n siarad Cymraeg
- Datblygwyd partneriaethau gydag asiantaethau recriwtio i dargedu staff addas sy'n siarad Cymraeg. Ailgynlluniwyd dogfennau allweddol i alluogi PDMs i drafod Cymru a'i diwylliant gyda dysgwyr

Prif flaenoriaethau 2020 - 2021

- Parhau i adeiladu ar arferion presennol i hyrwyddo ac ymgorffori Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru ar draws y grŵp
- Annog mwy o bobl i ymuno â phwyllgor y Gymraeg a Diwylliant Cymru
- Datblygu ymhellach y berthynas â chyflogwyr sydd angen staff sy'n siarad Cymraeg
- Parhau i gael adborth gan gyflogwyr ynghylch sut y gallwn wella ein gwasanaethau Cymraeg
- Parhau i hyrwyddo pwysigrwydd y Gymraeg a Diwylliant Cymru i ddysgwyr, cyflogwyr a staff drwy ein gwefannau, cylchlythyrau a deunydd marchnata arall
- Datblygu dulliau newydd drwy'r cyfryngau cymdeithasol i annog mwy o ddysgwyr ac unigolion eraill yng Nghymru i ddatblygu eu sgiliau i siarad mwy na dim ond ychydig eiriau o Gymraeg
- Parhau i roi blaenoriaeth i recriwtio mwy o staff sy'n siarad Cymraeg i gryfhau ein tîm darparu
- Parhau i wella ein darpariaeth Gymraeg drwy ddatblygu'r gallu i ychwanegu sectorau galwedigaethol newydd at ein portffolio
- Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd
- Casglu a dadansoddi adborth ar yr effaith y mae ein darpariaeth Gymraeg yn ei chael ar ddysgwyr a chyflogwyr
- Datblygu fforwm ar gyfer dysgwyr Cymraeg

Caiff y strategaeth hon ei chyfleu drwy wefan grŵp t2, mewnrwyd staff a chylchlythyrau dysgwyr a staff. Caiff y Gymraeg a Diwylliant Cymru eu hyrwyddo'n eang i ddysgwyr a staff drwy:

- Ganllawiau Cychwynnol ac ymweliad cyntaf i bob dysgwr
- Llawlyfr Dysgwyr
- Strategaeth Cynnwys Dysgwyr a Chyflogwyr a gweithdrefnau cysylltiedig

Strategaeth gyfathrebu

- Cylchlythyrau dysgwyr 'Achievers Edge' a 'Management Acumen'
- Gwefannau adnoddau pwrpasol amrywiol t2
- Sesiynau ymsefydlu Staff
- Sesiynau un i un ar gyfer staff
- Hyfforddiant staff
- Gweithdai DPP staff
- Cyfarfodydd safoni staff
- Gwefan 'Pam Dysgu Cymraeg?'
- Mewnrwyd Staff
- Llawlyfr Staff

Strategaeth fonitro

Bydd Pwyllgor y Gymraeg a Diwylliant Cymru yn adolygu cynnydd yn erbyn y strategaeth bob chwarter. Mae'r mesurau'n cynnwys:

- Gweithredu ar awgrymiadau a wnaed gan ddysgwyr, cyflogwyr a staff
- Gwerthuso pob cynllun drwy adborth llafar
- Gwella sgoriau drwy adborth dysgwyr
- Gwella sgoriau drwy adborth staff
- Dadansoddi'r ymchwil ddiweddaraf, arfer gorau a syniadau